



Cymdeithas
Cyfieithwyr
Cymru

**Y Prawf Cyfieithu ar y Pryd i'r Saesneg
12 Rhagfyr 2017
Yr Adroddiad Cyffredinol**

YR YMGEISWYR

Cafwyd pedwar ymgeisydd, dau yng Nghaerdydd a dau yn y Groeslon.

Y DARNAU PRAWF

Darn 1: Angharad Mair o Tinopolis a Meirion Davies o'r Mentrau Iaith yn rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar ei ymchwiliad i Dlodi yng Nghymru.

Darn 2: Cyflwyniad gan Jonathan Blofeld Rees, Cydlynnydd y Gymraeg mewn Addysg o Gyfarwyddiaeth Cefnogaeth Addysgol CBAC i'r Gweithgor Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Roedd yr aseswyr o'r farn bod y darnau'n deg ac yn rhai y dylai unrhyw gyfieithydd profiadol fod wedi gallu ymdopi â hwy. Yn y darn cyntaf, trafodwyd y sefyllfa economaidd mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith ac, yn benodol, cyfleoedd cyflogaeth. Roedd y prif dyst yn siarad yn bwylllog ond cafwyd ambell her o ran dehongli'r gwreiddiol.

Cyflwyniad Powerpoint oedd yr ail ddarn, ychydig yn gyflymach na'r cyntaf, a'r her yma oedd y mynd a dod rhwng y siaradwr a'r sleidiau, a'r ffaith nad oedd wyneb y siaradwr i'w weld bob tro.

Y SAFON

Teg yw dweud bod y safon eto eleni yn is na'r hyn a welwyd mewn profion blaenorol. Teimlwyd bod ambell ymgeisydd wedi sefyll y prawf yn rhy gynnar ac y byddai'r ymgeiswyr hynny wedi elwa ar fagu rhagor o brofiad cyn mentro. Llwyddodd pob ymgeisydd i berfformio'n well yn yr ail ddarn o gymharu â'r cyntaf.

Geirfa

Er bod mwy o wybodaeth gefndir wedi cael ei darparu i'r ymgeiswyr ar gyfer y darn cyntaf o gymharu â'r ail, cafodd nifer anhawster gyda'r eirfa gyffredinol a chafwyd lluo o enghreifftiau o gam-gyfieithu geiriau sylfaenol, er enghraifft:

*Ewrop > UK
gwledig > deprived
arfordir > borders
angen > demand
diweithdra > employment
allfudiad > exporting
cyfalaf > money
chwareli > mines / quarrels*

translation system > cwmni cyfieithu
mentrau > activities

Fodd bynnag, roedd rhai enghreifftiau o eirfa dda megis:

allfudiad > outmigration
poblogaeth gynhenid > indigenous population
mynd ymlaen a mlaen efo > not sustainable
ôl-ddiwydiannol > post-industrial

At ei gilydd, llwyddodd yr ymgeiswyr i ymdopi'n well gyda'r eirfa yn yr ail ddarn, ond cafwyd ambell enghraifft o gam-gyfieithu elfennol megis 'Special Educational Needs' am 'Anghenion Dysgu Ychwanegol'; 'mobile teachers' yn hytrach na 'peripatetic teachers'; 'beginning' am 'diwedd'; 'vision' am 'amcanion'; 'very happy' am 'gwylaidd'. Eto, roedd rhai o'r termau hyn wedi'u cynnwys yn y wybodaeth a roddwyd i'r ymgeiswyr ei darllen cyn y prawf, sy'n awgrymu na fanteisiwyd i'r eithaf ar y cyfnod darllen 15 munud.

Deall, dehongli a chywirdeb

Ymhlyg yn y darnau roedd rhannau a oedd yn gofyn am sgiliau deall a dehongli da.

Yn gyffredinol, roedd y deall a'r dehongli yn well yn yr ail ddarn. O ran y darn cyntaf, cafodd sawl un anhawster ar y dechrau pan oedd Angharad Mair yn sôn am gefndir Tinopolis, gydag enwau'r cwmnïau teledu anghyfarwydd, megis 'Sunset and Vine', yn eu baglu. Dim ond un ymgeisydd a lwyddodd i ddehongli 'amcan' yn gywir, fel 'estimate'. Roedd hyn yn codi ddwywaith, felly hyd yn oed pe dywedwyd 'aim' y tro cyntaf, byddai disgwyl i'r ymgeiswyr fod wedi cywiro eu hunain yr eildro gan fod y cyddestun yn llawer cliriach. Llwyddodd rhai hefyd i egluro'r ffaith bod "ardaloedd canran uchel" yn cyfeirio at ardaloedd lle roedd canran uchel o siaradwyr Cymraeg, yn hytrach nag ardaloedd lle roedd canran uchel o ddiweithdra.

Roedd yr ail ddarn gryn dipyn yn well o ran y dehongli, a'r unig faen tramgwydd oedd pan restrwyd enwau aelodau'r panel a'r ardaloedd yr oeddent yn eu cynrychioli.

Cystrawennu ac idiomau

Yn debyg i brawf y llynedd, prif wendid yr ymgeiswyr eleni oedd y gystrawen a'r gallu i greu brawddegau a oedd yn gwneud synnwyr yn y Saesneg. O'r herwydd, cafwyd nifer o enghreifftiau o gyfieithu trwsogl ac anidiomatig er enghraifft:

gwanhau'r Gymraeg - decrease of the Welsh language
ar y pryd – at present
yn gryno – shortly
siaradwyr Cymraeg – Welsh-speaking speakers
Bangor university held a research
If they could better it I would love to see it back in its better form
yn ddilys > in validity

Wedi dweud hynny, cafwyd rhai enghreifftiau da o gyfieithu llyfn gyda chystrawen ac idiom a oedd yn adlewyrchu'r iaith darged:

ar lawr gwlad > grass roots
i fod yn fentrus > take the initiative
meistres galed > hard taskmaster
marw > passing away

Arddull a Stamina

At ei gilydd, roedd gan yr ymgeiswyr leisiau dymunol gan wneud ymgais dda i liwio a gwahaniaethu rhwng siaradwyr, er bod arwyddion o nerfuswydd yma ac acw, sy'n gwbl ddealladwy dan amodau prawf. Er i bob ymgeisydd llwyddo i orffen cyfieithu'r ddau ddarn roedd y llif yn anghyson. Roedd rhai yn cyfieithu'n un ribidirês heb wahaniaethu weithiau rhwng diwedd un frawddeg a dechrau'r nesaf, ac eraill yn gadael bylchau neu'n methu â gorffen brawddegau, ac roedd hyn yn amharu gryn dipyn ar brofiad y gwrandawyr.

Y CANLYNIAD

Dyfarnwyd bod un ymgeisydd yn llwyddo. Teimlai'r aseswyr y byddai'r ymgeiswyr eraill yn elwa ar ehangu eu profiad a chysgodi cyfieithwyr profiadol. Byddai hefyd yn fuddiol gwrandao ar raglenni materion cyfoes Saesneg er mwyn gwella'r cystrawennu a chyfieithu'n fwy idiomatig, yn ogystal ag ehangu eu geirfa.

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i annog y rhai sy'n ystyried sefyll y prawf yn y dyfodol i fanteisio i'r eithaf ar yr hyfforddiant a gynigir gan y Gymdeithas, ac yn benodol felly y sesiynau ymarfer ar gyfer y profion cyfieithu ar y pryd. Mae hyn yn rhoi cyfle i ymgeiswyr ymgynefino ag amgylchiadau'r prawf, yn ogystal â chael sylwadau cyfieithydd ar y pryd profiadol ar eu gwaith.

GAIR O DDIOLCH

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r aseswyr am eu gwaith manwl a thrylwyr. Mawr yw fy niolch hefyd i staff y Gymdeithas am eu cymorth, eu cefnogaeth a'u harweiniad parod, ac yn anad dim am eu hamynedd.